| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad** | **5, Gorffennaf, 2010** |
| **Pwnc** | **Cais am ollyngiad** |
| **Gweithrediad** | **Penderfynu ar y cais.** |
| **Awdur** | **Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

1. Mae'r Cynghorydd Julian Kirkham yn aelod o Gyngor Cymuned Arthog ac wedi cyflwyno cais i'r Pwyllgor am ollyngiad.

2. Mae'r Cynghorydd yn cynrychioli Cyngor Cymuned Arthog ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw. Un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd yw'r pwyllgor, sy'n trafod materion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw. Mae'n cynnwys nid yn unig aelodau etholedig o Gyngor Gwynedd, ond hefyd aelodau o'r cynghorau cymuned/tref perthnasol a chynrychiolwyr o gyrff sy'n cynrychioli defnyddwyr yr harbwr.

3. Un o swyddogaethau statudol Cyngor Gwynedd yw trwyddedu cychod sy'n cario teithwyr. Mae'n rhoi 'Trwydded Cychwr' i'r sawl sy'n llywio cwch o'r fath a 'Thrwydded Perchennog' i berchnogion cychod. Yn Abermaw mae 'na dri gwasanaeth fferi gwahanol sy'n hwylio o Abermaw i Bwynt Penrhyn ac mae wyth deilydd Trwydded Cychwr yn gweithio arnynt.

4. Mae'r Cynghorydd Kirkham yn ddeilydd Trwydded Cychwr ac yn gweithio ar un o'r gwasanaethau fferi hyn.

5. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Ymgynghorol ar 16, Mawrth, 2010, cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Morwrol ynglŷn â gofynion trwydded fferi. 'Roedd y swyddog wedi derbyn cyfarwyddyd gan y Pwyllgor i ystyried awgrym y dylai ymgeiswyr am Drwydded Cychwr feddu ar 'Drwydded Meistr Cwch' yr M.C.A. (Maritime and Coastguard Agency). Atodir copi o'r rhan berthnasol o adroddiad y Swyddog Morwrol, sy'n egluro goblygiadau'r syniad yma, fel **Atodiad 1**. Nid oes gan y Pwyllgor Ymgynghorol yr hawl i newid gofynion y Cyngor ar gyfer trwydded pe bai'n penderfynu o blaid yr awgrym. Byddai'n rhaid mynd a'r mater i bwyllgorau harbwr eraill y sir, cyn mynd a'r mater i un o bwyllgorau'r Cyngor am benderfyniad.

6. Gan fod y Cynghorydd Kirkham yn ddeilydd Trwydded Cychwr ei hun ac yn gweithio ar un o'r gwasanaethau fferi, a gan y byddai penderfyniad ar y mater yn amlwg yn effeithio arno, datgelodd y buddiant a gadael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth. Atodir copi o gofnodion y cyfarfod fel **Atodiad 2**.

**Y Cais**

7. Atodir  cais y Cyng. Krkham fel **Atodiad 3**.

8. Fel y gwelir, mae'r Cynghorydd yn awyddus i gymryd rhan lawn yn y drafodaeth ar sail fod ganddo arbenigedd penodol yn y maes.

**Argymhelliad**

9. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar gais y Cynghorydd am ollyngiad.